GIG CYMRU NHS WALES | Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys
Emergency Ambulance Services Committee



**GWASANAETH ADALW A THROSGLWYDDO MEDDYGOL BRYS**
**ELUSEN AMBIWLANS AWYR CYMRU**

# BRIFF ADOLYGIAD Y GWASANAETH

**RHIFYN 4**

**Y sefyllfa bresennol ar 6 Ionawr 2023**

Pwrpas y nodyn briffio hwn yw rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf am yr amserlen ar gyfer dechrau’r broses ymgysylltu ffurfiol y cytunwyd arni mewn perthynas â’r Adolygiad Gwasanaeth o’r Gwasanaeth Adalw a Throsglwyddo Meddygol Brys (GATMB Cymru) sy’n gweithio mewn partneriaeth ag Elusen Ambiwlans Awyr Cymru.

Yn y papur briffio diwethaf, esbonwyd ein bod yn disgwyl dechrau ymgysylltu ffurfiol pan gytunwyd ar y deunyddiau ymgysylltu, ond nid cyn 9 Ionawr 2023. Gwnaethom hefyd esbonio y byddai Tîm PGAB yn parhau i weithio gydag arbenigwyr mewn Byrddau Iechyd a Chynghorau Iechyd Cymuned i gynhyrchu deunyddiau ymgysylltu ar gyfer y gwaith.

Mae gwaith yn parhau ar y deunyddiau ymgysylltu (a fydd yn cynnwys llinellau amser) ond yn ddealladwy mae ein tîm hefyd wedi bod yn brysur iawn yn cefnogi ymateb y GIG i'r pwysau presennol sy'n wynebu'r system gofal brys a'n cleifion. Gydag ymddiheuriadau mae hyn yn golygu nad yw'r deunyddiau'n barod eto ac felly ni fyddwn yn cychwyn ar y broses ffurfiol ar 9 Ionawr 2023 (wythnos nesaf). Rydym yn gobeithio rhannu gwybodaeth cyn gynted â phosibl, ac yn awr yn disgwyl i'r rhain fod ar gael erbyn dechrau mis Chwefror ac rydym yn gwerthfawrogi eich dealltwriaeth yn ystod y cyfnod hwn.

Gwyddom fod gan lawer o bobl wir ddiddordeb yn y gwasanaeth ac am gymeryd rhan yn y broses ymgysylltu. Mae’n bwysig iawn inni gael y gwaith hwn yn iawn gan fod hwn yn wasanaeth sy’n cael ei werthfawrogi’n fawr gan bobl Cymru ac felly, nid ydym yn rhuthro’r gwaith.

Byddwn yn rhoi gwybod i chi cyn dechrau ar y broses ymgysylltu ffurfiol a bydd amrywiaeth o ffyrdd y byddwch yn gallu cymryd rhan.

Bydd hyn yn cynnwys cyfarfodydd wyneb yn wyneb, cyfarfodydd ar-lein a chyfleoedd i chi ddarparu gwybodaeth atom ni.

Diolch i chi am eich diddordeb parhaus yn y gwaith hwn, rydym yn gwerthfawrogi'r wybodaeth yr ydych eisoes wedi'i rhannu. Edrychwn ymlaen at ddechrau ymgysylltu mwy ffurfiol cyn gynted â phosibl ac mae croeso i chi barhau i gysylltu â ni gydag unrhyw ymholiadau neu awgrymiadau sydd gennych yn y cyfamser.



GIG CYMRU NHS WALES | Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys
Emergency Ambulance Services Committee

**Bydd y broses ffurfiol o ymgysylltu â'r cyhoedd mewn dwy ran:**

Bydd Rhan 1 yn:

- Disgrifio sut mae GATMB yn gweithio nawr
- Trafod beth sy'n rhaid ei sefydlu a beth sy'n rhaid ei gael (cyfyngiadau)
- Trafod sut rydym yn mesur manteision a risgiau pob opsiwn (amcanion buddsoddi)
- Trafod sut mae'r broses yn adlewyrchu fod rhai buddion yn bwysicaf nag eraill (pwysoliadau)

Adolygu ar ôl chwe wythnos i ystyried y broses hyd yma; trafodaethau, cytuno ar y cyfyngiadau, amcanion buddsoddi a phwysiadau i lywio meysydd pellach ar gyfer modelu.

Bydd Rhan 2 yn:

- Cyflwyno opsiynau yn cynnwys manteision a risgiau (a chasglu adborth a safbwyntiau gan y cyhoedd, cleifion, staff a rhanddeiliaid).

**Ffeithiau allweddol:**

- **Nid oes penderfyniad wedi ei wneud eto**
- Mae cymunedau wedi codi pryderon am y posibilrwydd o gau'r canolfannau awyr presennol yn Y Trallwng a Chaernarfon
- Mae aelodau'r cyhoedd wedi bod yn codi pryderon ac yn gofyn cwestiynau gan ddefnyddio Gwefan PGAB
- https://pgab.gig.cymru/gwasanaethau-a-gomisiynir/gwasanaeth-adalw-a-throsglwyddo-meddygol-brys-gctmb/cdg/
- Bydd ymgysylltu ffurfiol â'r cyhoedd yn cadarnhau'r sefyllfa sylfaenol bresennol, yn llywio datblygiad ffiniau neu derfynau i'w defnyddio ac opsiynau a fydd wedyn yn cael eu modelu. Bydd hyn yn sicrhau bod manteision neu anfanteision pob opsiwn yn cael eu nodi'n glir a'u pwyso a'u mesur fel rhan o broses agored, dryloyw a chadarn.

**Camau nesaf:**

- Tîm PGAB i barhau i weithio gydag arbenigwyr mewn byrddau iechyd a Chynghorau Iechyd Cymuned i gynhyrchu deunyddiau ymgysylltu ar gyfer y gwaith gan gynnwys amserlenni
- Disgwyl dechrau ymgysylltu ffurfiol pan gytunir ar y deunyddiau ymgysylltu ond ni fydd hyn yn dechrau cyn Chwefror 2023 – byddwn yn cadarnhau ymlaen llaw
- Disgwylir penderfyniad terfynol gan PGAB yn 2023 yn dilyn cyfnod o ymgysylltu â'r cyhoedd na fydd yn para llai nag 8 wythnos (gydag adolygiad a'r ôl 6 wythnos).

**Sut allwch chi ddarganfod mwy?**

Mae gennym wefan ar gael lle gallwch gael y wybodaeth diweddaraf

https://pgab.gig.cymru/gwasanaethau-a-gomisiynir/gwasanaeth-adalw-a-throsglwyddo-meddygol-brys-gctmb/cdg/

Gallwch hefyd ofyn cwestiwn neu roi sylwadau ar y cynigion a gweld cwestiynau cyffredin (FAQs) drwy clicio yma

**Dolenni defnyddiol eraill**

Gwefan WAAC cliciwch yma

Dadansoddiad gwasanaeth WAAC cliciwch yma

Cwestiynau cyffredin WAAC (FAQs) cliciwch yma

Gwefan GAATMB Cymru cliciwch yma